

CENEDLAETHOLDEB

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Cenedlaetholdeb
2. Gwreiddiau Cenhedloedd a Chenedlaetholdeb
3. Ffuriau ar genedlaetholdeb
 - a. Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol
 - b. Cenedlaetholdeb Ceidwadol
 - c. Cenedlaetholdeb Ymledol
 - d. Cenedlaetholdeb Gwrthdrefedigaethol
4. Elfennau allweddol Cenedlaetholdeb
 - a. Y genedl
 - b. Ymlyniad cenedlaethol
 - c. Sofraniaeth genedlaethol a hunanbenderfyniad
 - d. Diwylliant
5. Cenedlaetholdeb a'r rhaniad sifig-ethnig
6. Cenedlaetholdeb yng ngwleidyddiaeth Cymru
 - a. Owain Glyndŵr
 - b. Michael D. Jones
 - c. Saunders Lewis a datblygiad Plaid Cymru
 - d. Oes datganoli
7. Cenedlaetholdeb a gwleidyddiaeth fyd-eang
 - a. Agweddau ar Genedlaetholdeb
 - b. Gwrthodiad Cenedlaetholdeb

CENEDLAETHOLDEB

1. Rhagymadrodd: cyflwyno Cenedlaetholdeb

Cariad at ein Gwlad yw'r teitl Cymraeg a roddir i destun Richard Price – *A Discourse on the Love of our Country* – a sbardunodd y rhyfel pamffledi yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y Chwyldro Ffrengig yn 1789. Daeth yr ysgrif yn adnabyddus yn sgil y dadleuon radical, rhyddfrydol eu naws, a fynegwyd ynddo a'r ffaith iddynt gymell Edmund Burke i ymateb gyda'i destun enwog, *Reflections on the Revolution in France*. Fodd bynnag, trafod gwladgarwch oedd pwrpas pennaf Price, ac yn benodol, yr egwyddorion hynny ddylai fod yn sail i'r genedl fodern. Yn hynny o beth, mae'r testun yn adlewyrchiad teilwng o'r oes – cyfnod a adnabyddir bellach yn un a oedd nid yn unig yn hollbwysig o safbwynt datblygiad rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth a sosialaeth, ond hefyd o safbwynt y syniad o'r genedl ei hun.

Yn wir, mae'n bosib dehongli'r drafodaeth rhwng Price a Burke, a'r syniadau gwahanol a fynegir ganddynt, fel enghraifft o'r ddadl ynghylch **gwreiddiau cenedloedd a chenedlaetholdeb**. Tra bod Burke yn cynrychioli'r safbwynt mwy hanesyddol, sy'n ystyried y genedl fel endid organig sydd wedi esblygu dros amser, mae syniadau Price yn fynegiant o'r dehongliad modernaidd sy'n sefydlu cyswllt pendant rhwng y genedl â sefydliadau'r wladwriaeth. Ceir hefyd yn y ddadl rhwng Price a Burke awgrym o'r **ffurfiau gwahanol ar genedlaetholdeb** a fyddai'n datblygu yn hwyrach yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn arbennig **Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol** – sy'n adlewyrchu nifer o safbwyntiau Price ynglŷn â'r angen am wladgarwch er mwyn hyrwyddo gwerthoedd megis rhyddid, rhinwedd a dinasyddiaeth – a **Cenedlaetholdeb Ceidwadol** – sy'n adleisio pwyslais Burke ar themâu megis **traddodiad, dyletswydd ac awdurdod**. Maes o law byddai ffurfiau cenedlaetholgar amgen yn datblygu hefyd – **Cenedlaetholdeb Ymledol** a **Cenedlaetholdeb Gwrthdrefedigaethol** – gan arwain at gysylltu cenedlaetholdeb â thrafodaethau ynglŷn â rhinweddau ymerodraeth a threfedigaethu. Bu i'r naill gynnig sail ar gyfer cyfiawnhau ymgyrchoedd ymledol y grymoedd ymerodraethol, tra bo'r llall wedi'i gysylltu â dadleuon y rheini a fu'n brwydro'n ôl.

Er gwaethaf yr amrywiaeth o safbwyntiau cenedlaetholgar a ddatblygodd ers dyddiau'r Chwyldro Ffrengig, mae'n bosib adnabod rhai **elfennau allweddol** sy'n nodweddu cenedlaetholdeb o bob math. Yn eu mysg, mae'r pwyslais ar y **genedl** a'r syniad o **ymlyniad cenedlaethol**, a hefyd pwyslais ar egwyddorion megis **sofraniaeth genedlaethol** a **hunanbenderfyniaeth**. Elfen arall sy'n hawlio sylw llawer o genedlaetholwyr yw'r angen i gynnal **diwylliant** traddodiadol y genedl. Fodd bynnag, ceir anghydweld mewn rhai cylchoedd ynglŷn â'r graddau y dylid pwysleisio nodweddion diwylliannol wrth ddiffinio'r genedl. Arweinia hyn at ystyriaeth o'r rhaniad poblogaidd rhwng **enedlaetholdeb sifig a chenedlaetholdeb ethno-ddiwylliannol** – sy'n seiliedig ar yr honiad (problematig) bod modd gwahaniaethu rhwng mathau

CENEDLAETHOLDEB

gwahanol o genedlaetholdeb ar sail y pwyslais a roddir ffactorau sifig (megis dinasyddiaeth) neu ffactorau ethnig (megis hil a diwylliant).

Pan fu Price yn trafod ei weledigaeth ef ar gyfer y genedl ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif fe wnaeth hynny yng nghyd-destun Prydain Fawr, a datblygiad y genedl benodol honno. Ar y pryd, nid oedd mudiad cenedlaetholgar Cymreig trefnus yn bodoli. Fodd bynnag, mae **enedlaetholdeb** wedi bod yn nodwedd amlwg **yng ngwleidyddiaeth Cymru** dros y canrifoedd, boed hynny o safbwynt dylanwad Prydeindod ar Gymru, neu yn sgil ymdrechion i sicrhau mynegiant i, neu gydnabyddiaeth o, Gymreictod. O droi wedyn i'r lefel fyd-eang, gellir hawlio bod cenedlaetholdeb yn rhan cwbl annatod o weithrediad gwleidyddiaeth ryngwladol heddiw. Deillia hyn o'r ffaith mai'r genedl-wladwriaeth sy'n parhau i gael ei gweld fel yr uned sylfaenol ar gyfer trefnu daearyddiaeth wleidyddol y byd ac ar gyfer strwythuro ymwneud rhwng pobloedd gwahanol. Er hyn, fe geir rhai lleisiau pwysig sy'n cwstyfnu a *ddylai'r* genedl barhau i fod yn ystyriaeth mor flaenllaw i'r dyfodol.

CENEDLAETHOLDEB

2. Gwreiddiau Cenedlaetholdeb

Mae'r drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau cenedlaetholdeb yn un sydd wedi esgor ar ddadlau poeth ymhlith nifer o haneswyr, gwyddonwyr gwleidyddol a chymdeithasegwyr. Tuedda'r mwyafrif helaeth o ysgolheigion i gytuno mai ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y gwelwyd termau megis 'cenedl' a 'chenedlaetholdeb', ynghyd â themâu cysylltiedig megis 'hunanbenderfyniad cenedlaethol' a 'hunaniaeth genedlaethol', yn dechrau cael eu defnyddio'n gyson mewn cyd-destunau gwleidyddol. Fodd bynnag, ceir anghydweld sylweddol ynglŷn â'r graddau y dylid hefyd trin y teimladau a'r syniadau a ddaeth i gael eu cynrychioli gan y termau hyn fel pethau sydd ond yn perthyn i'r cyfnod modern. Nid yw ysgolheigion wedi medru cytuno ynglŷn ag os ddylid trin cenedlaetholdeb fel ffenomen ddiweddar, neu, yn hytrach, fel rhywbeth sy'n ymestyn yn ôl i'r gorffennol pell.

I ddechrau, mae'r sawl sy'n arddel y dehongliad *primordaid* wedi mynnu y dylid trin cenedlaetholdeb fel ffenomen hynafol sy'n perthyn i'r cyfnod cyn-fodern. Yn nhyb y sawl sydd wedi'i uniaethu â'r safbwynt hwn, mae cenedloedd yn unedau naturiol ac organig sy'n adlewyrchu tuedd reddfodol ymhlith bodau dynol i drefnu'u hunain yn grwpiau, a hynny er mwyn magu ymdeimlad o berthyn, hunaniaeth a sicrwydd. Dadleuir bod cenedlaetholdeb yn ganlyniad anochel i'r duedd hon ac, o ganlyniad, y gellir ei olrhain yn ôl i arferion rhai o'r grwpiau a'r llwythau cynharaf. Ymhellach, honnir ei fod yn ffenomen a fydd yn parhau cyhyd â bod y ddynoliaeth yn goroesi. Ffigur a gaiff ei gysylltu â'r dehongliad primordaid o genedlaetholdeb yw'r meddyliwr Almaenig o'r ddeunawfed ganrif, Johann Gottfried Herder (1744-1803). Fodd bynnag, nid dim ond safbwynt sy'n perthyn i'r gorffennol ydyw – mynegwyd safbwyntiau lled debyg hefyd mewn gwaith mwy cyfoes o eiddo seicolegwyr.

Ceir dehongliad pur wahanol o wreiddiau cenedlaetholdeb gan y sawl sy'n arddel y safbwynt *modernaid*. Fel yr awgryma'r enw, hanfod y safbwynt hwn yw'r gred mai ffenomen lled ddiweddar yw cenedlaetholdeb – rhywbeth a ddaeth i amlygrwydd fel rhan o'r newidiadau mawr a brofwyd ar draws Ewrop o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen wrth i hanes gamu o'r Oesoedd Canol i mewn i'r Cyfnod Modern. Dyma broses a nodweddyd gan gyfres o newidiadau pellgyrhaeddol. Heb os, y ddau amlycaf oedd datblygiad trefn gymdeithasol ac economaidd oedd yn seiliedig ar gyfalafiaeth a datblygiad trefn wleidyddol oedd yn seiliedig ar y wladwriaeth sofran. Ffenomen a ddatblygodd yn sgil y prosesau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol hyn yw cenedlaetholdeb yn nhyb y sawl sy'n arddel y safbwynt modernaid. Dadleuir mai dim ond yn sgil amgylchiadau newydd yr oes fodern y daeth cenedlaetholdeb i fodolaeth. Cynt, byddai amgylchiadau bywyd wedi gwneud ymlediad syniadau o'r fath yn amhosib.

Un o ladmeryddion amlycaf y safbwynt modernaid oedd yr athronydd a'r anthropolegwr, Ernest Gellner (1925-1995). Yn ei gyfrol enwog *Nations and Nationalism*

CENEDLAETHOLDEB

(1983) dadleuodd Gellner bod cenedlaetholdeb yn ganlyniad i'r ffaith bod amgylchiadau'r gymdeithas ddiwydiannol fodern yn golygu bod sicrhau lefel uchel o gydlyniant ieithyddol a diwylliannol yn gwbl angenrheidiol. Mewn cymdeithasau cyn-ddiwydiannol nid oedd gwahaniaethau ieithyddol neu ddiwylliannol yn creu unrhyw broblem. Lleol iawn oedd gorwelion bywyd y mwyafrif llethol, a chyfyngedig oedd y cysylltiad rhwng unigolion o wahanol haenau cymdeithasol. O ganlyniad, nid oedd ots os oedd iaith neu arferion diwylliannol gwahanol ddisbarthiadau o fewn cymdeithas yn wahanol i'w gilydd. Fodd bynnag, yn y cyfnod diwydiannol modern daeth unigolion i fyw bywydau llawer mwy cyfnewidiol a datblygodd y gymdeithas yn gyffredinol i fod yn un llawer mwy symudol. Nid oedd pobl bellach yn treulio'u bywydau mewn cymunedau ynysig a daeth dyrchafu'n gymdeithasol yn fwyfwy posib. Yr unig ffordd y gellid sicrhau bod modd i bobl symud o amgylch – a thrwy – cymdeithas yn y fath fodd yw trwy greu cyfrwng diwylliannol cyffredin sy'n galluogi pawb i ymwneud yn hwylus â'i gilydd. Yn ôl Gellner cafodd y glud ieithyddol a diwylliannol hwn ei ledaenu ar draws cymdeithas trwy waith cyfundrefn addysg gyffredin, a dyma ddarparodd y sail ar gyfer datblygiad ymdeimlad o genedlaetholdeb mewn gwahanol rannau o Ewrop yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Lladmerydd arall ar ran y safbwynt modernaidd oedd yr hanesydd Marcsaidd, Eric Hobsbawm (1913-2012). Fodd bynnag, mae pwyslais dadleuon Hobsbawm ychydig yn wahanol i rai Gellner. Yn hytrach na chanolbwyntio ar newidiadau cymdeithasol ac economaidd cyffredinol, mae Hobsbawm yn mynnu y dylid rhoi sylw i weithredoedd gwleidyddol rhai carfanau penodol. Yn nhyb Hobsbawm, lol yw sôn am ymlyniad cenedlaethol sy'n ymestyn nôl i'r gorffennol pell. Yn hytrach, pethau a gaiff eu creu yn fwriadol yn ystod degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r genedl, ynghyd â'r ymdeimlad cysylltiedig o genedlaetholdeb. Aelodau'r *bourgeoisie* sy'n bennaf gyfrifol am arwain y broses hon yn ôl Hobsbawm. Fel Marcsydd ymroddedig, dadleuodd bod y garfan yma wedi mynd ati o tua'r 1830au ymlaen i 'ddyfeisio traddodiadau' – er enghraifft baneri cenedlaethol, anthemau cenedlaethol neu wyliau cenedlaethol – a fyddai'n cynnig sail i'r syniad o genedl. Dadleuodd Hobsbawm y gwnaed hyn er mwyn magu ymdeimlad o genedligrwydd, a thrwy hynny, annog aelodau'r dosbarth gweithiol i dybio eu bod yn rhannu diddordebau cyffredin â'r sawl sy'n rheoli cymdeithas. Yn sgil hynny, câi potensial chwyldroadol y proletariat ei ffrwyno gan 'ffug ymwybyddiaeth', tra bo grym a statws y bourgeoisie yn cael ei gynnal.

Tra bo'r safbwyntiau primordaid a modernaidd yn cynrychioli dau begwn eithaf y drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau cenedlaetholdeb, ceir trydydd safbwynt sy'n sefyll rhywle yn y canol. Caiff y safbwynt hwn ei gysylltu'n bennaf â gwaith yr hanesydd Anthony D. Smith (1939-2016) a'i ddadleuon *ethno-symbolaidd*. Yn nhyb Smith, mae dadleuon modernwyr megis Gellner neu Hobsbawm yn tueddu i or-symleiddio pethau, gan anwybyddu'r elfen o barhad a geir rhwng cenedloedd modern a chymunedau

CENEDLAETHOLDEB

ethnig cyn-fodern – parhad, er enghraifft, o ran traddodiadau, hanesion, iaith a llenyddiaeth. Ar yr un pryd, tra bo Smith yn pwysleisio'r elfen yma o barhad, mae hefyd yn dadlau na ddylid diystyru'r newidiadau pwysig sy'n arwain at droi ymlyniadau ethnig cyn-fodern i fod yn genedlaetholdeb fel yr adnabyddir ef erbyn heddiw. At ei gilydd felly, mae safbwynt Smith yn un sy'n mynnu na ddylid cyflwyno cenedlaetholdeb modern fel ffenomen sy'n codi o unman, ond hytrach rhywbeth sy'n adeiladu ar ddeunydd crai sy'n deillio o gyfnodau hanesyddol cynt.

I grynhoi, gwelwyd yn yr adran hon bod y drafodaeth ynglŷn â gwreiddiau cenedlaetholdeb wedi esgor ar ystod o safbwyntiau gwahanol ymhlith haneswyr, gwyddonwyr gwleidyddol a chymdeithasegwyr. Hanfod yr anghydweld rhwng y safbwyntiau hyn yw'r graddau y dylid trin cenedlaetholdeb fel ffenomen fodern sy'n perthyn yn bennaf i'r ddau gan mlynedd diwethaf, neu, yn hytrach, fel rhywbeth organig a hynafol sy'n ymestyn yn ôl i'r gorffennol pell.

3. Ffuriau ar Genedlaetholdeb

Mae cenedlaetholdeb yn ideoleg sydd wedi cwmpasu ystod eang iawn o ffrydiau. Yn wir, ar brydiau ymddengys y byddai'n fwy addas i sôn am gyfres o genedlaetholdebau gwahanol yn hytrach na thrin cenedlaetholdeb fel un traddodiad cydlynol. I raddau, gellid cyflwyno dadl o'r fath yn achos bron pob un ideoleg wleidyddol. Er hyn, mae rhywbeth reit unigryw ynglŷn ag ehangder ac amrywiaeth y safbwyntiau gwleidyddol sydd wedi'u cysylltu â chenedlaetholdeb dros y blynyddoedd. Yn wir, ar wahanol adegau mae cenedlaetholdeb wedi cwmpasu syniadau gwleidyddol blaengar ac adweithiol, democrataidd ac awdurdodaidd, rhyddfreniol a gorthrymol, adain chwith ac adain dde. Mae'r diffyg cysondeb hwn yn deillio, yn rhannol, o'r ffaith bod cenedlaetholdeb wedi datblygu mewn lleoliadau gwahanol o dan amodau hanesyddol a diwylliannol amrywiol iawn. Fodd bynnag, mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod cenedlaetholdeb yn ideoleg sydd, dros y blynyddoedd, wedi cael ei asio â chyfres o ideolegau pwysig eraill – yn arbennig rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth a sosialaeth – gan amsugno rhai o'u cysyniadau a'u gwerthoedd allweddol. Mae hyn wedi esgor ar gyfres o draddodiadau cenedlaetholgar pur wahanol.

3.2 Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol

Gwelwyd traddodiad a oedd yn asio syniadau cenedlaetholgar â rhai rhyddfrydol yn datblygu yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y Chwyldro Ffrengig yn 1789. Yn wir, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd cyswllt agos iawn yn datblygu rhwng y ddau draddodiad yma ar draws gwahanol rannau o Ewrop. Nodweddyd y gyfres o chwyldroadau a welwyd ar draws y cyfandir yn 1848 gan ddadleuon a oedd yn cyfuno'r alwad am ymreolaeth genedlaethol â galwad am drefniadau llywodraethol mwy cyfansoddiadol ac atebol. Ystyrir dadleuon y mudiad cenedlaetholgar yn yr Eidal, ac yn benodol, syniadau un o'i arweinwyr, Giuseppe Mazzini (1805-1872), fel enghraifft amlwg o'r duedd hon. Cafodd egwyddorion tebyg eu harddel hefyd gan Simon Bolivar (1783-1830), un o arweinwyr y mudiad annibyniaeth yn ne America, oedd â'r nod o roi diwedd ar reolaeth ymerodraethol Sbaen dros fywyd trigolion y cyfandir hwnnw. Yn ogystal, fe welir dylanwad cenedlaetholdeb rhyddfrydol yn y 'Pedwar Pwynt ar Ddeg' enwog a luniwyd yn 1918 gan arlywydd America, Woodrow Wilson (1856-1924) fel sail i Gytundeb Versailles – y cytundeb heddwch a luniwyd ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ac a arweiniodd at aildrefnu gwleidyddol a thiriogaethol sylweddol ar draws rhannau o ganolbarth a dwyrain Ewrop.

Gellir nodi dwy agwedd bwysig sy'n tueddu i nodweddu syniadau'r cenedlaetholwyr rhyddfrydol – y naill yn nodwedd genedlaetholgar a'r llall yn nodwedd rhyddfrydol:

CENEDLAETHOLDEB

- **Hunanbenderfyniaeth cenedlaethol:** I ddechrau, caiff y wedd genedlaetholgar ei hamlygu gan y ffaith bod cenedlaetholwyr rhyddfrydol yn credu bod y byd wedi'i rannu'n gyfres o genhedloedd gwahanol, a phob un yn meddu ar hunaniaeth unigryw. Ymhellach, tybir bod pob un o'r cenedloedd hyn yn gyfartal o ran statws ac yn cynrychioli unedau addas ar gyfer trefnu cymdeithas wleidyddol. O ganlyniad, amcan traddodiadol cenedlaetholwyr rhyddfrydol fu ceisio creu amodau lle fo pob cenedl yn meddu ar **hunanbenderfyniaeth** – hynny yw yr annibyniaeth wleidyddol i lunio ei dyfodol ei hun ar ei thelerau ei hun. Yr arfer fu i dybio bod hyn yn gyfystyr â meddu ar yr hawl i sefydlu gwladwriaeth sofran annibynnol. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae amryw o genedlaetholwyr rhyddfrydol wedi dadlau bod hefyd modd gwireddu hunanbenderfyniad trwy gyfrwng trefniadau ffederal neu gydffederal lle bo'r genedl yn arddel ymreolaeth bellgyrhaeddol, ond fel rhan o wladwriaeth fwy.
- **Sofraniaeth y bobl:** Yn ail, caiff y pwyslais cenedlaetholgar uchod ar statws unedau cenedlaethol ei asio â'r pwyslais rhyddfrydol ar gydsyniad neu sofraniaeth y bobl – hynny yw y gred y dylai grym ac awdurdod gwleidyddol godi o'r gwaelod, o blith y bobl gyffredin. Yn yr achos hwn, wrth gwrs, y 'bobl' berthnasol yw aelodau'r genedl, a'u cydsyniad nhw sydd angen ei sicrhau wrth greu cymuned wleidyddol a threfnu ei system lywodraethol. Golyga hyn felly fod cenedlaetholwyr rhyddfrydol nid yn unig yn poeni ynglŷn ble yn union y byddai ffiniau cymuned wleidyddol benodol yn gorwedd, ond hefyd pa fath o gyfundrefn wleidyddol a gâi ei chreu o fewn y ffiniau hynny.

Y pwyslais hwn ar hunanbenderfyniad cenedlaethol, ochr yn ochr â'r angen am drefniadau llywodraeth mwy atebol, sy'n egluro pam y bu i genedlaetholdeb rhyddfrydol sicrhau dilyniant mor eang yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hwn yn gyfnod pan roedd gwahanol grwpiau cenedlaethol yn galw am ymryddhad o afael rhai o'r hen ymerodraethau Ewropeaidd, er enghraifft Ymerodraeth Awstria. Ond, ar yr un pryd, gan fod yr ymerodraethau hyn yn rhai unbenaethol, roedd yr ymgyrchu hefyd yn cynnwys galw am ffurfiau llywodraethol mwy atebol.

Er poblogrwydd cenedlaetholdeb rhyddfrydol dros y blynyddoedd, mae beirniaid wedi tynnu sylw at ystod o wendidau posib. I ddechrau, mae rhai wedi cyhuddo cenedlaetholwyr rhyddfrydol o fod yn naïf. Ar y naill law, maent yn barod iawn i bwysleisio rhinweddau da a blaengar cenedlaetholdeb a'u gyflwyno fel grym rhesymol, goddefgar a rhyddfreniol, ond ar y llaw arall, awgrymir eu bod yn euog o anwybyddu'r modd y mae cenedlaetholdeb hefyd wedi gweithredu fel grym dinistriol dros y blynyddoedd. Yn ail, ac o bosib yn fwy difrifol, honnwyd bod cred cenedlaetholwyr rhyddfrydol y dylai pob cenedl gael ei thrin yn gyfartal a meddu ar hawl gyfartal i hunanbenderfyniaeth cenedlaethol yn safbwynt cwbl anymarferol. Y gwir amdani yw nad yw cenedloedd yn unedau unffurf sydd ond yn cynnwys un grŵp ethnig neu

CENEDLAETHOLDEB

ddiwylliannol. Yn aml iawn bydd cenedloedd yn cwmpasu amryw o grwpiau gwahanol sydd oll â syniadau gwahanol ynglŷn â sut y dylid trefnu dyfodol gwleidyddol y diriogaeth. Mae hanes gwaedlyd yn lwgosafia gynt yn brawf clir o hyn. O ganlyniad, mae beirniaid cenedlaetholdeb rhyddfrydol wedi dadlau na all ei egwyddorion gynig canllaw dibynadwy ar gyfer ymdrin â byd sy'n llawn o wahaniaethau a thensiynau ethno-genedlaethol.

Er beirniadaethau o'r fath, nid yw'r diddordeb mewn cenedlaetholdeb rhyddfrydol wedi pylu. I'r gwrthwyneb, dros yr ugain mlynedd diwethaf gwelwyd ton newydd o ysgolheigion yn mynd ati i drafod natur y berthynas rhwng egwyddorion cenedlaetholgar a rhai rhyddfrydol. Fel rhan o'r symudiad hwn mae ysgolheigion rhyddfrydol, megis Yael Tamir, David Miller a Will Kymlicka, wedi dadlau bod cynnal rhyw fath o ymdeimlad cenedlaethol yn hollbwysig er mwyn caniatáu i gymdeithasau ryddfrydol-ddemocrataidd fedru gweithredu'n effeithiol. I ddechrau, dadleuwyd bod meddu ar hunaniaeth genedlaethol sicr yn caniatáu i unigolion arddel eu rhyddid mewn modd ystyrlon. Yn ogystal, mynnwyd bod cynnal ymdeimlad cyffredin o hunaniaeth genedlaethol yn fodd o sicrhau bod cymdeithas yn meddu ar y fath o undod ac ymddiriedaeth sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal sefydliadau democrataidd iach a gwladwriaeth les hael.

3.3 Cenedlaetholdeb Ceidwadol

Tra bod cenedlaetholdeb a rhyddfrydiaeth wedi datblygu perthynas agos yn gynnar yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tueddai ceidwadwyr y cyfnod i ystyried cenedlaetholdeb fel grym peryglus a oedd yn meddu ar y potensial i danseilio trefn a sefydlogrwydd cymdeithasol. Fodd bynnag, yn hwyrach yn ystod y ganrif gwelwyd ceidwadwyr yn magu agwedd mwy ffafriol tuag at genedlaetholdeb ac yn sgil hynny gwelwyd ffurf ar genedlaetholdeb ceidwadol yn datblygu.

Un ffactor a berodd i wleidyddion ceidwadol y cyfnod, er enghraifft Benjamin Disraeli ym Mhrydain, i roi mwy o sylw i syniadau cenedlaetholgar oedd y gred y gallai pwysleisio bodolaeth cwlwm cenedlaethol gyfrannu at uno aelodau'r genedl. Tybiwyd y gellid defnyddio syniadau o'r fath er mwyn hwyluso ymdrechion ceidwadwyr i gynnal sefydlogrwydd cymdeithasol ac amddiffyn sefydliadau traddodiadol. O ganlyniad, un o nodweddion amlycaf y ffurf geidwadol ar genedlaetholdeb fu'r pwyslais ar sicrhau undod a sefydlogrwydd y genedl. Ceisiwyd cyflawni hyn trwy hybu teimladau o ddyletswydd genedlaethol ac o falchder cenedlaethol, a hynny gyda'r bwriad o feithrin ymdeimlad o berthyn a theyrngarwch sy'n ymestyn ar draws gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol. Yn wir, ar sail eu gallu i gymell aelodau'r dosbarth gweithiol i deimlo'n rhan o'r gymdeithas gyfalafol fodern, daeth nifer o geidwadwyr y bedwaredd ar bymtheg i ddehongli syniadau cenedlaetholgar fel adnoddau defnyddiol y gellid eu harneisio er mwyn tanseilio apêl sosialaeth, ac yn enwedig ei ffrwd Farcsaidd mwy chwyldroadol.

CENEDLAETHOLDEB

Gwelwyd tactegau tebyg yn cael eu harddel gan geidwadwyr mwy cyfoes hefyd. Er enghraifft, roedd gogwydd genedlaetholgar amlwg i wleidyddiaeth Charles De Gaulle, arlywydd ceidwadol Ffrainc rhwng 1959 a 1969. Rhoddodd De Gaulle bwyslais mawr ar themâu megis dyletswydd cenedlaethol a balchder cenedlaethol fel rhan o'i ymgais i ailadeiladu gwladwriaeth a chymdeithas Ffrainc yn dilyn chwalfa'r Ail Ryfel Byd a dirywiad ei hymerodraeth. I raddau helaeth, gellir dehongli agenda wleidyddol Margaret Thatcher, Prif Weinidog y Deyrnas Unedig rhwng 1979 a 1990, fel un a oedd hefyd yn meddu ar ogwydd cenedlaetholgar gref. Boed wrth amddiffyn ei pholisïau llym ar wariant cyhoeddus, ei hymdrechion i danseilio dylanwad yr undebau llafur, neu ei chred mewn polisi amddiffyn cadarn, rhoddai Thatcher bwyslais cyson ar y syniad o ddyletswydd genedlaethol. Dadleuodd hefyd o blaid yr angen i ailgodi bri cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn dilyn y dirywiad a fu yn ei statws rhyngwladol yn ystod y 1960au a'r 1970au.

Elfen bwysig arall sy'n nodweddu cenedlaetholdeb ceidwadol yw'r pwyslais a roddir ar draddodiad a hanes. I raddau, mae cydnabyddiaeth o hanes y genedl yn elfen sy'n nodweddu bron pob math o genedlaetholdeb. Fodd bynnag mae hyn yn thema sy'n amlwg iawn yn nadleuon cenedlaetholwyr ceidwadol. Dyma ffurf ar genedlaetholdeb sy'n barod iawn i edrych yn ôl ac i ddyrchafu rhyw oes aur (honedig) o'r gorffennol. Amlygir hyn gan y pwyslais a roddir gan genedlaetholwyr ceidwadol ar bethau megis buddugoliaethau milwrol o'r gorffennol a'r modd y tueddir i'w dehongli fel digwyddiadau cwbl allweddol yn natblygiad y genedl. Fe'i gwelir hefyd yn y modd y caiff statws symbolaidd aruchel ei briodoli i rai sefydliadau traddodiadol, yn enwedig teuluoedd brenhinol.

O ystyried y pwyslais mae cenedlaetholwyr ceidwadol eu natur yn tueddu i'w roi ar drefn, undod a sefydlogrwydd cenedlaethol, nid yw'n syndod bod y ffurf hon ar genedlaetholdeb wedi tueddu i gael ei mynegi mewn modd arbennig o echblyg ar adegau pan dybir bod y genedl a'u hunaniaeth yn cael ei bygwth. Er enghraifft, fel rhan o'u hymgais i wrthwynebu'r broses o integreiddio Ewropeaidd, gwelwyd nifer o wleidyddion adain dde o bob rhan o'r cyfandir yn dadlau bod datblygiad trefniadau llywodraethol 'uwchgenedlaethol' yn peryglu sofraniaeth y genedl a hefyd yn tanseilio pob math o sefydliadau cenedlaethol traddodiadol. Wrth gwrs, fe welwyd hyn ar ei fwyaf amlwg ym Mhrydain ymhlith aelodau'r Blaid Geidwadol ac UKIP. Fodd bynnag bu'n nodwedd o ddadleuon gwleidyddion ceidwadol eraill hefyd, er enghraifft aelodau pleidiau'r Ffrynt Genedlaethol yn Ffrainc neu Lega yn yr Eidal. Mae'r modd y mae ceidwadwyr wedi mynegi eu hamheuron ynglŷn â mewnfudo rhyngwladol hefyd wedi'i seilio ar themâu cenedlaetholgar. A siarad yn gyffredinol, mae'r dadleuon hyn yn hawlio bod gormod o wahaniaethau diwylliannol a chrefyddol yn debygol o danseilio'r ymdeimlad o hunaniaeth gyffredin sy'n clymu cymdeithas at ei gilydd ac, yn sgil hyn, yn debygol o arwain at wrthdaro ac ansefydlogrwydd.

CENEDLAETHOLDEB

O ystyried y dadleuon uchod, nid yw'n syndod bod cenedlaetholdeb ceidwadol yn draddodiad sydd wedi esgor ar gryn feirniadaeth. O bosib y pennaf o'r beirniadaethau hyn yw hwnnw sy'n hawlio bod cenedlaetholdeb ceidwadol yn draddodiad adweithiol ei natur sy'n esgor ar deimladau rhagfarnlyd ac anoddefgar. Trwy roi cymaint o bwyslais ar undod cenedlaethol, ac yn sgil hynny, ar bwysigrwydd sefydliadau traddodiadol ac arferion diwylliannol penodol, mae peryg bod y sawl sy'n arddel y safbwynt hwn yn mynnu dehongli'r genedl mewn modd rhy gul ac yn rhoi gormod o bwyslais ar y gwahaniaethau rhwng aelodau'r genedl ac eraill. Yn wir, yn ei ffurf fwyaf eithafol gall y ffurf hon ar genedlaetholdeb droi'n hiliaeth neu'n senoffobia anoddefgar. Eto i gyd, mae'n werth nodi bod pob ffurf ar genedlaetholdeb – bod hwnnw'n geidwadol, sosialaidd neu'n rhyddfrydol ei natur – yn rhwym o gynnwys elfen o wahaniaethu ac o geisio sefydlu ffiniau rhwng 'ni' a 'nhw'. Y gwir amdani yw bod diffinio unrhyw hunaniaeth yn galw am wneud hyn. Er mwyn gwybod pwy neu beth ydym ni, rhaid gwybod pwy neu beth nad ydym. Fel y dadleuodd yr athronydd Cymreig, J.R. Jones: 'ni ellir gwybod am berthyn heb ymglywed â pheidio perthyn.'

3.4 Cenedlaetholdeb Ymledol

Ceir trydedd ffurf ar genedlaetholdeb sy'n meddu ar gymeriad ymosodol, rhyfelgar ac ymledol. Dyma genedlaetholdeb sy'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r ffurf fwy rhyddfrydol a'i bwyslais ar gydraddoldeb a hunanbenderfyniaeth. Yn wir, ar adegau bu tuedd i'r ffurf fwy ymosodol ac ymledol hon ar genedlaetholdeb i gyd-redeg yn agos iawn â syniadau ffasgaid.

Mae'n debyg mai yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg – o'r 1870au ymlaen – y daeth y ffurf hon ar genedlaetholdeb i'r amlwg, a hynny yng nghyd-destun yr ail don fawr o drefedigaethu gan wladwriaethau Ewrop. Dyma'r cyfnod pan fu gwladwriaethau imperialaidd y cyfnod – Ffrainc, yr Almaen a'r Deyrnas Unedig – yn ymgiprys er mwyn sicrhau eu gafael dros rannau o gyfandir Affrica. Wrth reswm, roedd awydd i ennill mantais economaidd yn un ffactor pwysig a gyfrannodd at yrru'r ymdrechion hyn. Fodd bynnag, roedd awydd i ddyrchafu statws a bri rhyngwladol y genedl hefyd yn ystyriaeth flaenllaw, a hynny i raddau llawer mwy nag yn ystod cyfnodau cynharach o drefedigaethu. Yn wir, rhwng 1870 a 1914 daeth y gallu i feddu ar ymerodraeth helaeth i gael ei drin fel arwydd pwysig o lewyrch cenedl, ac yn sgil hynny, esgorodd ymgyrchoedd trefedigaethol y cyfnod ar gefnogaeth gyhoeddus frwd. Tueddir hefyd i ddehongli'r cyfnodau arweiniodd at y ddau Ryfel Byd fel rhai pan roedd cenedlaetholdeb ymosodol ac ymledol ar gerdded. Cychwynnodd y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914 – yn rhannol yn sgil y tensiynau a ddeilliodd o ras arfau estynedig rhwng yr Almaen a'r Deyrnas Unedig – a serch y dinistr a'r lladd a brofwyd maes o law, fe gafodd y newyddion ei groesawu'n frwd mewn sawl prifddinas ar draws Ewrop, gan y tybiwyd y

byddai'r brwydro yn cynnig cyfle i bwysleisio gallu milwrol a bri cenedlaethol. Yna, yn achos yr Ail Ryfel Byd (1939-1945), deilliodd y gwrthdaro, i raddau helaeth, o'r tensiynau a berwyd gan ymgyrchoedd ymledol cyfundrefnau ffasgaid yr Almaen a'r Eidal a Japan yn ystod y 1930au – ymgyrchoedd a oedd yn meddu ar naws cenedlaetholgar cryf. Yn fwy diweddar byth, fe welwyd dylanwad dinistriol cenedlaetholdeb ymledol ar waith fel rhan o'r rhyfela gwaedlyd a ddeilliodd o ymrannu gwladwriaeth Iwgoslafia yn ystod y 1990au, ac yn arbennig fel rhan o ymgyrch ffigurau fel Slobadan Milošević i greu un 'Serbia Fawr'.

Un o nodweddion amlycaf y ffurf ymledol ar genedlaetholdeb yw ymagwedd siofinaidd (*chauvinistic*) gref. Yn wahanol i genedlaetholwyr rhyddfrydol, gwrthodir yr honiad bod pob cenedl yn gydradd, ac yn sgil hynny, yn meddu ar hawl gydradd i hunanbenderfyniaeth cenedlaethol. Yn hytrach, hawlir bod rhai cenhedloedd yn meddu ar nodweddion neu rinweddau sy'n eu gosod uwchlaw eraill. Roedd siofynyddiaeth o'r math hwn yn un elfen amlwg o syniadau'r cenedlaetholwr Ffrengig, Charles Maurras (1868-1952), oedd yn arweinydd i'r mudiad adain-dde Action Française. Disgrifiodd Maurras Ffrainc fel 'ryfeddod digymar' a 'chronfa o rinweddau Cristnogol a chlasurol'. Roedd siofynyddiaeth hefyd yn nodwedd amlwg o'r cenedlaetholdeb a fu'n sail i ymgyrchoedd trefedigaethol gwledydd Ewrop yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gyrrwyd yr ymgyrchoedd hyn, yn rhannol, gan gred sicr yng ngoruchafiaeth ddiwylliannol Ewrop. Tybiwyd fod pobloedd 'gwyn' Ewrop yn bell ar y blaen, o ran dysg a moeseg, i'r bobloedd 'du', 'brown' a 'melyn' a drigai ar draws Affrica ac Asia. O ganlyniad, cyflwynwyd trefedigaethu fel ymgais foesol i ledu manteision y 'gwareiddiad Ewropeaidd' i'r bobloedd 'llai soffistigedig' a 'llai datblygedig' a drigai mewn rhannau eraill o'r byd.

3.5 Cenedlaetholdeb Gwrthdrefedigaethol

Arweiniodd y profiad o fyw o dan reolaeth drefedigaethol at hybu ymdeimlad o genedligrwydd, ynghyd â dyhead am ymryddhad cenedlaethol, ymhlith rhai o bobloedd Affrica ac Asia. Yn sgil hyn, datblygodd ffurf amgen ar genedlaetholdeb gwrthdrefedigaethol yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Arweiniodd y broses o ddad-drefedigaethu a ddatblygodd yn ystod y degawdau yn dilyn yr Ail Ryfel Byd at drawsnewid daearyddiaeth wleidyddol y byd. Daeth diwedd ar yr hen ymerodraethau Ewropeaidd wrth i gost cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol y ddau ryfel byd olygu nad oedd gwladwriaethau megis Ffrainc a'r Deyrnas Unedig bellach yn meddu ar yr ewyllys na'r adnoddau i ddal gafael ar eu tiriogaethau tramor helaeth. Mewn rhai achosion, bu i hyn ddigwydd mewn modd cymharol heddychlon, er enghraifft fel yn yr India yn 1947, Tunisia yn 1956, a, Malaysia a Ghana yn 1957. Ond mewn nifer o achosion eraill, dim ond yn dilyn cyfnod hir o wrthryfela arfog y daeth diwedd ar y

CENEDLAETHOLDEB

berthynas drefedigaethol. Er enghraifft, dyma fu'r hanes yn Algeria (1954-62), Vietnam (1946-54) a Kenya (1952-59). Fodd bynnag, yr hyn sy'n arwyddocaol yn y cyswllt hwn, yw'r ffaith bod arweinwyr y mudiadau gwrthdrefedigaethol a gododd ar draws Affrica ac Asia yn ystod y 1950au a'r 1960au wedi mynegi eu dadleuon o blaid torri'n rhydd o'u meistri gorllewinol mewn termau cenedlaetholgar.

Yn wreiddiol, bu i'r dadleuon hyn ddilyn trywydd tebyg i rai cenedlaetholwyr rhyddfrydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, megis Mazzini, gan bwysleisio'r angen am drefniadau llywodraethol oedd yn cydnabod hawl cyfartal pob cenedl i hunanbenderfyniad. Serch hynny, roedd yr amgylchiadau a wynebwyd gan y mudiadau cenedlaetholgar newydd hyn yn bur wahanol i'r rhai a wynebai genedlaetholwyr ar draws Ewrop ganrif ynghynt. I'r cenedlaetholwyr gwrthdrefedigaethol, roedd cysylltiad agos iawn rhwng eu galwad am annibyniaeth wleidyddol ac ymwybyddiaeth o'r diffyg datblygiad cymdeithasol ac economaidd oedd yn deillio o flynyddoedd o ormes o dan fawd y gwladwriaethau Ewropeaidd. O ganlyniad, daeth cenedlaetholdeb y mudiad gwrthdrefedigaethol i gyfuno ffocws ar y dimensiwn gwleidyddol a chyfansoddiadol gyda phwyslais ar anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd. O ystyried hyn, nid yw'n syndod bod y ffurf wrthdrefedigaethol ar genedlaetholdeb wedi dod i ddatblygu perthynas agos â syniadau sosialaidd. Yn wir, erbyn y 1960au a'r 1970au, roedd ystod helaeth o fudiadau gwrthdrefedigaethol wedi dod i asio eu dadleuon o blaid ymreolaeth genedlaethol gydag elfennau o'r sosialaeth chwyldroadol a gâi ei harddel gan Marx a Lenin. Un ffactor gyfrannodd at y datblygiad hwn oedd y dybiaeth bod Marcsiaeth yn cynnig dadansoddiad treiddgar o'r anghydraddoldeb a'r ecsploetio a brofwyd fel rhan o'r profiad trefedigaethol. Yn ogystal, roedd Lenin wedi dadlau y dylid dehongli trefedigaethu fel estyniad o'r ecsploetio dosbarth sy'n rhan anochel o gyfalafiaeth – rhywbeth sy'n deillio o angen y gwledydd cyfalafol mawr i ganfod llafur ac adnoddau craidd rhad er mwyn cynnal eu twf economaidd.

Mae'n werth nodi nad dim ond yng nghyd-destun ymgyrchoedd dad-drefedigaethu'r ugeinfed ganrif y gwelwyd ymgais i fynegi dadleuon cenedlaetholgar mewn modd sy'n gorgyffwrdd yn agos â syniadau sosialaidd eu natur. O bosib fel canlyniad i ddylanwad y mudiadau gwrthdrefedigaethol a drafodwyd uchod, fe welwyd ffurf adain chwith ar genedlaetholdeb yn cael ei fynegi gan amryw o'r mudiadau cenedlaetholgar iswladwriaethol a welwyd yn magu momentwm ar draws rhannau o Orllewin Ewrop a Gogledd America o'r 1960au ymlaen. Roedd y mudiad cenedlaetholgar yng Nghymru yn un enghraifft o'r duedd hon, gyda nifer o leisiau dylanwadol yn rhengoedd Plaid Cymru a Chymdeithas yr Iaith yn dadlau y dylid mabwysiadu agenda a oedd yn cyflwyno dadleuon ynglŷn â hunanlywodraeth a phwysigrwyd y Gymraeg mewn termau sosialaidd a oedd yn pwysleisio dylanwad ffactorau economaidd. Gwelwyd tueddiadau tebyg hefyd mewn perthynas â mudiadau cenedlaetholgar mewn llefydd megis Gwlad y Basg a Quebec. Fodd bynnag, dylid gochel rhag casglu bod pob mudiad

CENEDLAETHOLDEB

cenedlaetholgar iswladwriaethol cyfoes wedi gogwyddo i'r chwith, gan y ceir sawl enghraifft o rai sydd wedi dilyn llwybr mwy adain dde.

4. Elfennau allweddol Cenedlaetholdeb

Fel y gwelwyd yn yr adran flaenorol, mae cenedlaetholdeb yn ideoleg sydd wedi cwmpasu ystod eang ac amrywiol iawn o safbwyntiau gwleidyddol. Ymhellach, mae'r rhain yn safbwyntiau sydd wedi gorgyffwrdd â bron pob un o'r prif draddodiadau ideolegol eraill, gan gynnwys rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth, sosialaeth a ffasgaeth. Eto i gyd, er gwaethaf yr ehangder hwn, erys rhai elfennau allweddol y gellir eu trin fel rhai sy'n greiddiol i wleidyddiaeth genedlaetholgar o bob math. Trafodir y pwysicaf o'r elfennau hyn isod.

4.1 Y genedl

Yr egwyddor sylfaenol sy'n sail i bob ffurf ar genedlaetholdeb yw'r gred mai'r genedl yw'r uned wleidyddol greiddiol. Er hyn, mae ceisio egluro beth yn union yw cenedl, ynghyd â beth yw ei nodweddion allweddol, wedi profi'n dasg anodd iawn sydd wedi esgor ar gryn ansicrwydd. Ar y lefel mwyaf cyffredinol, gellir diffinio cenedl fel endid sy'n dwyn ynghyd grŵp o bobl sy'n rhannu iaith, diwylliant, crefydd, arferion traddodiadau a hanes cyffredin, ac sydd hefyd, fel arfer, yn rhannu tiriogaeth gyffredin. Eto i gyd, ni ellir dibynnu'n llwyr ar nodweddion *gwrthrychol* tebyg i'r uchod er mwyn diffinio cenedl. Mae bron pob cenedl yn cynnwys amrywiaethau ieithyddol, diwylliannol, crefyddol neu ethnig o ryw fath. Enghraifft amlwg o hyn yw'r Swistir, lle ceir ymdeimlad cenedlaethol cryf, ond ar yr un pryd, tair cymuned iaith (Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg). Ymhellach, ceir sawl enghraifft o genhedloedd gwahanol sy'n rhannu'r un iaith neu'r un grefydd. Er enghraifft ceir ystod eang o genhedloedd sy'n trin y Saesneg, y Ffrangeg neu'r Almaeneg fel ieithoedd cenedlaethol cyffredin. Golyga hyn mai anodd, os nad amhosib, fyddai ceisio llunio un rhestr derfynol a diamod o feini prawf gwrthrychol i'w defnyddio er mwyn sefydlu pryd a ble y gellir datgan bod cenedl yn bodoli.

O ganlyniad, rhaid i unrhyw ymgais i ddiffinio cenedl gyfuno ystyriaeth o nodweddion gwrthrychol, megis iaith, diwylliant, neu draddodiadau cyffredin, gydag ystyriaeth o deimladau *goddrychol* aelodau'r genedl. Yn y pendraw, fel y dadleuodd yr athronydd a'r hanesydd Ffrengig Ernest Renan (1823-1892), yr hyn sy'n diffinio cenedl (ac yn ei gwahaniaethu o grwpiau cymdeithasol eraill) yw'r ffaith bod crynodiad penodol o bobl yn deisyfu meddwl am eu hunain fel cenedl, ac yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol o hynny gan eraill. Fel arfer, bydd yr alwad hon am gydnabyddiaeth yn rhoi pwyslais ar ddyhead aelodau'r genedl i gael eu cydnabod fel cymuned wleidyddol unigryw, ac yn sgil hynny, i feddu ar lefel o ymreolaeth wleidyddol. Gall yr ymreolaeth hon gael ei sicrhau trwy sefydlu gwladwriaeth annibynnol, neu trwy drefniant ffederal neu gydffederal mwy cyfyngedig.

CENEDLAETHOLDEB

Mae'r ffaith bod cenedloedd yn medru cael eu hadnabod ar sail cyfuniad o ffactorau gwrthrychol a goddrychol wedi arwain rhai ysgolheigion i ddadansoddi'r modd y mae mudiadau cenedlaethol gwahanol wedi dewis diffinio eu cenedl benodol hwy, ynghyd â'r amodau sy'n rhaid eu bodloni er mwyn medru hawlio aelodaeth o'r genedl. Mae hyn wedi esgor ar raniad rhwng cenedlaetholdeb ethnig (neu ethno-ddiwylliannol) a chenedlaetholdeb sifig (neu ddinesig) sydd wedi hawlio lle canolog yn y llenyddiaeth academaidd ar genedlaetholdeb. Trafodir natur y categorïau hyn yn fwy manwl yn Adran 5 'Cenedlaetholdeb a'r rhanriad sifig-ethnig'.

4.2 Ymlyniad cenedlaethol

Tuedd arall sy'n gyffredin ymhlith cenedlaetholwyr o bob math yw'r gred bod y byd wedi'i rannu'n naturiol yn gyfres o genhedloedd gwahanol, gyda phob un yn meddu ar gymeriad a hunaniaeth unigryw. Ymhellach, tuedda cenedlaetholwyr i drin yr ymlyniad sydd gan bobl tuag at eu cenedl fel un sy'n meddu ar arwyddocâd eithriadol ac sy'n sefyll uwchlaw ein hymlyniad tuag at unrhyw endid torfol arall. Tra bod mathau eraill o ymlyniadau, er enghraifft o ran dosbarth, rhyw, crefydd neu iaith, wedi meddu ar arwyddocâd pwysig mewn rhai lleoliadau ar adegau penodol, hawli'r bod yr ymlyniad tuag at ein cenedl yn un sy'n meddu ar wreiddiau dyfnach. Dyma ymlyniad sydd wedi goroesi dros amser ac sydd i'w ganfod ym mhedwar ban byd.

4.3 Sofraniaeth genedlaethol a hunanbenderfyniad

Cam pwysig yn natblygiad cenedlaetholdeb fel ideoleg wleidyddol oedd hwnnw arweiniodd at asio'r syniad o gymuned genedlaethol â'r syniad o sofraniaeth y bobl. Honnwyd bod hyn wedi digwydd yn ystod Chwyldro Ffrainc ac wedi deillio o ddylanwad ysgrifau'r athronydd, Jean Jacques Rousseau (1712-78). Ni fu i Rousseau gyfeirio'n uniongyrchol yn ei waith at y cysyniad o genedl, na chwaith at genedlaetholdeb, fodd bynnag tybir bod ei bwyslais ar yr egwyddor o sofraniaeth y bobl wedi cynnig sail i ddatblygiad syniadaethol pwysig ym maes cenedlaetholdeb. Dadleuodd Rousseau na ddylai sofraniaeth (hynny yw, y grym gwleidyddol eithaf) orwedd yn nwylo brenin hollbwerus, fel oedd yn arferol ar draws rhannau helaeth o Ewrop ar y pryd, ond yn hytrach yn nwylo cymuned o bobl sydd wedi'i huno gan ddiwylliant cyffredin. Dylai'r broses o lywodraethu wedyn gael ei seilio ar ewyllys cytûn y gymuned hon, sef yr hyn y cyfeiriodd Rousseau ato fel 'yr ewyllys cyffredinol'. Yn arwyddocaol, yn ystod Chwyldro Ffrainc gwelwyd dylanwad y dadleuon hyn yn dod i'r amlwg wrth i'r chwyldroadwyr hawlio mai 'dinasyddion' oedd yn meddu ar hawliau sylfaenol oedd holl drigolion Ffrainc, yn hytrach na 'deiliaid' (*subjects*), ac yn sgil hynny, y dylai sofraniaeth orwedd yn eu dwylo hwy, aelodau'r genedl. O ganlyniad, arweiniodd Chwyldro Ffrainc at

CENEDLAETHOLDEB

hyrwyddo'r syniad y dylai trefniadau llywodraethol dilys amcanu at sicrhau bod pobl oedd wedi ymdrefnu'n genedl yn medru llywodraethu eu hunain.

Ar sail y datblygiadau uchod daeth yn fwyfwy arferol i drin cenhedloedd fel yr unedau priodol ar gyfer trefnu cymdeithas wleidyddol. O hyn cododd yr egwyddor y dylai pob cenedl feddu ar yr hawl i hunanbenderfyniaeth. A siarad yn gyffredinol, dehonglwyd yr hawl hon fel un ddylai sicrhau gallu'r genedl i drefnu ei hun yn un gymuned ystyrion, ac yn dilyn hynny, i feddu ar yr annibyniaeth wleidyddol i lunio'i dyfodol ei hun ar ei thelerau ei hun. Tan yn lled ddiweddar yr arfer fu i dybio bod hunanbenderfyniad, yng ngolwg bron pob cenedlaetholwr, yn gyfystyr â meddu ar yr hawl i sefydlu gwladwriaeth sofran annibynnol. Fodd bynnag, yn ddiweddar dadleuwyd bod nifer o genedlaetholwyr yn dewis dehongli'r egwyddor mewn modd mwy amlweddol. Daw hyn i'r amlwg yn astudiaethau'r gwyddonydd gwleidyddol, Michael Keating, o natur y galwadau cyfansoddiadol a gyflwynir gan y mudiadau cenedlaetholgar sy'n weithredol ar draws rhai o genhedloedd iswladwriaethol Ewrop. Dengys Keating, nad yw nifer helaeth o'r mudiadau hyn, er gwaethaf eu pwyslais ar hunanbenderfyniaeth â'r hawl i fedru llywio eu dyfodol eu hunain, yn amcanu at sefydlu gwladwriaethau annibynnol a sofran yn yr ystyr traddodiadol. Mynna bod eu hamcanion cyfansoddiadol yn fwy penagored na hynny, a'u bod yn effro i'r ffaith bod trefniadau gwleidyddol ac economaidd bellach yn cwmpasu ystod o wahanol haenau – y lleol, y cenedlaethol a'r rhyngwladol. Yn wir, hyd yn oed yn achos mudiadau cenedlaetholgar fel yr un Albanaidd, sy'n amlwg wedi rhoi pwyslais sylweddol ar y syniad o annibyniaeth dros y blynyddoedd diwethaf, fe welir bod nifer o'r modelau o annibyniaeth a gafodd eu cyflwyno wedi cynnwys cynnal rhai cysylltiadau cyfansoddiadol (y Goron) ac economaidd (y bunt) pwysig gyda gweddill y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd, mae nifer o'r cynigon ar gyfer annibyniaeth i Quebec a gyflwynwyd gan y Parti Québécois ers diwedd y 1970au (gan gynnwys ar adeg dau refferendwm annibyniaeth yn 1980 a 1995) wedi argymhell trefniadau lle byddai sofraniaeth yn cael ei rannu â gweddill Canada.

4.5 Diwylliant

Tra bo llawer o'r drafodaeth ynglŷn â chenedlaetholdeb wedi canolbwyntio ar y math o alwadau gwleidyddol neu gyfansoddiadol a gaiff eu cysylltu â'r syniadaeth – yn benodol yr alwad am hunanbenderfyniaeth cenedlaethol – rhaid cofio bod y dimensiwn diwylliannol hefyd wedi bod yn ganolog i agenda llawer o fudiadau cenedlaethol. O ganlyniad, nid dim ond sicrhau'r math o sefydliadau llywodraethol a dinesig a fyddai'n caniatáu i'r genedl gael ei thrin fel cymuned wleidyddol yn ei hawl ei hun fu'n mynd â bryd llawer o genedlaetholwyr. Rhoddwyd bri hefyd ar weithgaredd a fyddai'n dyrchafu ac yn cryfhau diwylliant traddodiadol y genedl (neu, fel yn achos nifer o genhedloedd lleiafrifol, adfywio ac ailadeiladu'r diwylliant hwnnw). Yn aml, mae'r gweithgaredd

CENEDLAETHOLDEB

diwylliannol hwn wedi canolbwyntio ar hybu ffyniant yr iaith genedlaethol, er enghraifft trwy ymdrechion i hybu'r defnydd ohoni fel prif gyfrwng y gymdeithas, neu trwy ymdrechion i helaethu ei chorpws (er enghraifft trwy fathu a safoni termau) er mwyn sicrhau ei bod yn gyfrwng sy'n medru cael ei defnyddio'n hwylus i drafod datblygiadau modern.

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif daeth yn ffasiynol ymhlith ysgolheigion oedd yn astudio cenedlaetholdeb i ddadlau bod y math diwylliannol hwn o weithgaredd yn tueddu i gael ei ffafrio gan rai mathau penodol o genedlaetholwyr, sef y sawl oedd yn arddel cenedlaetholdeb ethno-ddiwylliannol, tra bod cenedlaetholwyr eraill, sef y sawl oedd yn arddel cenedlaetholdeb dinesig, yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar amcanion gwleidyddol oedd yn ymwneud ag adeiladu sefydliadau a fyddai'n sail i egin wladwriaeth newydd. Er enghraifft, gwelwyd hyn yn y duedd i labeli cenedlaetholdeb Cymreig fel un diwylliannol ac ethnig ei natur, yn sgil y pwyslais a roddwyd ar gynnal yr iaith Gymraeg, tra bo cenedlaetholdeb Albanaidd wedi'i labeli'n gyson fel un gwleidyddol neu ddinesig, yn sgil y pwyslais a roddwyd ar gynnal sefydliadau pwysig megis ei system gyfreithiol a'i threfn addysg annibynnol. Fodd bynnag, fel y dangosir yn yr adran nesaf, mae peryg rhoi gormod o bwyslais ar raniadau o'r fath, gan eu bod yn medru gorsymleiddio pethau. Y gwir amdani yw bod cenedlaetholdeb ar waith, bron yn ddi-ffael, yn gyfuniad cymhleth o'r diwylliannol a'r gwleidyddol, yr ethnig a'r sifig.

5. Cenedlaetholdeb a'r rhaniad sifig-ethnig

Cyflwynwyd y rhaniad rhwng cenedlaetholdeb sifig ac ethnig gan Hans Kohn (1891-1971) er mwyn dadansoddi a disgrifio mathau gwahanol o genedlaetholdeb. Er eu bod yn categorïau lled ddiweddar, maent yn seiliedig ar safbwyntiau sy'n meddu ar hanes hir sy'n ymestyn yn ôl i'r ddeunawfed ganrif. Ymhellach, er eu bod yn categorïau a gyflwynwyd at bwrpas dadansoddol, maent hefyd wedi meddu ar wedd normadol gref – yn yr ystyr bod Kohn yn tueddu i gysylltu'r sifig gyda'r hyn sy'n 'dda' a'r ethnig gyda'r hyn sy'n 'ddrwg'. Awgrymodd bod cenedlaetholdeb sifig yn seiliedig ar agweddau agored, mwy rhyddfrydol a goddefgar, tra bod y cenedlaetholdeb ethnig yn fwy caeedig, cul ac anoddefgar.

Hanfod y gwahaniaeth yw seiliau'r genedl, yn benodol yr hyn sy'n dynodi aelodaeth o'r gymuned genedlaethol ac yn dwyn y bobl at ei gilydd, gan gynnig sail i'w hunaniaeth gyfunol. Caiff cenedlaetholdeb sifig, ei gysylltu'n bennaf â'r athronydd o Lydaw, Ernest Renan (1823-1892). Tra bod Renan yn cydnabod bod ystod o elfennau yn cyfrannu at greu ymwybyddiaeth o genedl, mynnodd mai'r hyn sy'n fwyaf allweddol yn y pendraw yw dyhead aelodau'r grŵp i feddwl am eu hunain fel cenedl – hynny yw, eu parodrwydd i ewyllysio'r genedl. Fodd bynnag, er pwysigrwydd Renan mewn perthynas â chenedlaetholdeb sifig, mae'n bosib hefyd camu'n ôl ymhellach at syniadau'r athronydd Cymreig, Richard Price (1723-1791), a'i drafodaeth enwog o natur gwladgarwch yn 1789, ar wawr y Chwyldro Ffrengig. Pwysleisiodd Price nad y tir neu ein man geni sy'n bwysig wrth ddiffinio cenedl, ond y gymuned o bobl sy'n dewis byw gyda'i gilydd, ac yn benodol, y llywodraeth, cyfraith a chyfansoddiad sydd yn gosod y fframwaith ar gyfer bywyd y gymuned honno. Yr hyn sydd yn ein huno fel cenedl ac yn ein cynnal felly yw'r sefydliadau sifig yma, nid ein tiriogaeth neu'n hunaniaeth.

Cyferbynnir y traddodiad sifig uchod gyda chenedlaetholdeb ethnig, a gaiff ei gysylltu â'r gred mai elfennau penodol ar hunaniaeth person sy'n cynnig sail ar gyfer aelodaeth o genedl benodol. Ymhellach, tueddir i dybio bod cenedlaetholdeb ethnig yn trin yr elfennau hyn fel rhai sy'n gwbl anhepgorol er mwyn sicrhau parhad y genedl ac undod ei haelodau. Erbyn heddiw, tueddir i dybio mai ffactorau megis hil neu dras penodol yw'r rhai y bydd cenedlaetholwyr ethnig yn dewis eu pwysleisio wrth ddynodi aelodaeth o genedl. Fodd bynnag, mae'r traddodiad yn un a gaiff ei gysylltu â syniadau'r athronydd Almaenig o'r ddeunawfed ganrif, Joseph Herder (1744-1803), ac roedd ef yn rhoi pwyslais hefyd ar nodweddion diwylliannol, megis chwedloniaeth, traddodiadau a chelfyddyd, ond yn anad dim, iaith a'r safbwynt unigryw ar y byd y mae'n cynrychioli sydd yn gysail i'r genedl.

Datblygodd y categorïau sifig ac ethnig i fod yn rhai poblogaidd iawn ymhlith ysgolheigion sydd wedi astudio cenedlaetholdeb. Fodd bynnag, mae peryg rhoi gormod o bwyslais ar y rhaniad hwn gan fod dadleuon cenedlaetholwyr yn aml yn medru bod yn

CENEDLAETHOLDEB

gyfuniad cymhleth o'r sifig a'r ethnig. Mae ystyried rhai o ddadleuon yr athronydd Seisnig, John Stuart Mill (1806-1873) yn fodd o dynnu sylw at rai o'r tensiynau hyn. Adnabyddir Mill fel lladmerydd ar ran y ffurf sifig o genedlaetholdeb, yn sgil y pwyslais a rodda ar yr angen i barchu dewis grŵp o bobl i ymffurfio'n genedl, a hefyd y pwyslais a rodda ar hanes gwleidyddol y genedl (hynny yw ymwybyddiaeth o ddatblygiad ei sefydliadau llywodraethol). Ar yr un pryd, dadleuodd Mill fod creu amodau a fydd yn caniatáu i sefydliadau gwleidyddol y genedl weithredu'n effeithiol yn galw am sicrhau bod yr holl aelodau yn rhannu rhai nodweddion diwylliannol cyffredin, ac yn arbennig, eu bod yn rhannu iaith gyffredin. Yn wir, ceir dyfyniad enwog o eiddo Mill lle mae'n rhybuddio'r Cymry y byddai'n ddoeth iddynt aberthu agweddau ar eu hunaniaeth ddiwylliannol er mwyn hwyluso'r broses o ddod yn aelodau cyflawn o'r 'genedl' Brydeinig:

'Nobody can suppose that it is not more beneficial for a Breton or a Basque of French Navarre ... to be a member of the French nationality... than *to sulk on his own rocks, the half-savage relic of past times* ... The same remark applies to the Welshman or the Scottish highlander as members of the British nation' (J. S. Mill, *Considerations on Representative Government*, 1861).

Gwelir felly nad yw dadleuon 'cenedlaetholwyr sifig' honedig fel Mill bob amser yn medru cael eu gwahaniaethu'n llwyr o safbwyntiau mwy ethnig sy'n pwysleisio'r angen i unigolion feddu ar nodweddion diwylliannol penodol cyn medru hawlio aelodaeth lawn o'r genedl. Yn wir, nid eithriad mo hyn chwaith. Mae gwaith ymchwil diweddar wedi tynnu sylw at y ffaith y bu tuedd gyson ymhlith rhai o genedl-wladwriaethau mawr y gorllewin – Ffrainc, Prydain ac Unol Daleithiau America er enghraifft, sef yr arch enghreifftiau o genhedloedd sifig yn ôl Kohn – i arddel dehongliadau o hunaniaeth genedlaethol sy'n pwysleisio elfennau ethnig. Fe welir hyn yn bennaf mewn perthynas â pholisïau mewnfudo y gwledydd hyn, lle bo meddu ar y gallu i siarad iaith benodol (Ffrangeg neu Saesneg) yn rhag-amod ar gyfer ennill dinasyddiaeth. O ganlyniad, tra na ellir gwadu bod y rhanriad rhwng cenedlaetholdeb sifig ac ethnig yn meddu ar werth dadansoddol, dylid gochel rhag dibynnu'n ormodol ar y categorïau hyn. Y gwir amdani yw mai anaml y bydd enghreifftiau o genedlaetholdeb yn syrthio'n daclus i'r naill categori neu'r llall. Yn amlach na pheidio, bydd cenedlaetholdeb yn gymysgedd cymhleth o'r ddwy elfen.

6. Cenedlaetholdeb yng ngwleidyddiaeth Cymru

6.1 Owain Glyndŵr

Gellir cychwyn trafodaeth ynglŷn â dylanwad syniadau cenedlaetholgar ar wleidyddiaeth Cymru trwy droi nôl i gyfnod Owain Glyndŵr. Cychwynnodd Glyndŵr ar ei wrthryfel yn 1400 ac fe gyrhaeddodd uchafbwynt yn 1405, cyn i'r llanw droi yn ei erbyn. O safbwynt cenedlaetholdeb, un o'r pethau sy'n arwyddocaol am yr ymgyrch yw'r modd y gwnaed defnydd helaeth o fytholeg a hanes, yn enwedig y pwyslais ar etifeddiaeth Glyndŵr a'i gysylltiadau â Thŷ Aberffraw. Ymhellach, roedd pwyslais Glyndŵr ar yr angen i greu sefydliadau cynhenid Cymreig, boed hynny'n senedd, yn brifysgolion neu'n gyfundrefn eglwysig, yn adleisio themâu cenedlaetholgar pwysig. Yn fwy cyffredinol, o ystyried ei ymgyrch gellir dadlau bod y profiad o ymrafael gyda'r Normaniaid a'r Sacsoniaid wedi peri i'r Cymry fagu ymdeimlad o hunaniaeth genedlaethol yn gynnar iawn – llawer yn gynt nag yn achos nifer o bobloedd eraill ledled Ewrop. Er enghraifft, ni welwyd ymdeimlad o hunaniaeth Seisnig cydlynol yn amlygu ei hun tan ddechrau'r bymthegfed ganrif. I raddau helaeth, ffurf reit gyntefig ar genedlaetholdeb a welwyd yn ystod y cyfnod hwn, lle cai hunaniaeth genedlaethol ei seilio'n bennaf ar ffactorau megis iaith, hanes a mytholeg. Fodd bynnag, roedd y cof o fodolaeth cyfraith frodorol Gymreig – cyfreithiau Hywel Dda o'r ddegfed ganrif – hefyd yn rhan o'r etifeddiaeth roedd Owain Glyndŵr yn awyddus i'w harneisio wrth ddenu cefnogaeth i'w wrthryfel.

Gyda methiant gwrthryfel Glyndŵr, ymgorfforwyd Cymru ymhellach, ac ni fyddai'r syniad, ymreolaeth genedlaethol yn codi eto mewn modd ystyrlon am rai canrifoedd. Yn hytrach trodd nifer o'r Cymru eu golygon at geisio dylanwadau ar natur y wladwriaeth Seisnig newydd a oedd bellach yn ffurfio, a hefyd at yr ymdrech i ddiogelu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn nhyb rhai, cafodd yr ymdrechion hyn eu hybu pan fu i Harri Tudur (Harri VII), a oedd o dras Gymreig, ddod yn frenin yn 1485, a hynny'n rhannol yn sgil y gefnogaeth y rhoddodd y Cymry i'w ymgyrch i gipio'r orsedd. Yn ddiweddarach, bu i'w fab, y drwg-enwog Harri VIII, roi cydnabyddiaeth i'r Cymry trwy Ddeddfau Uno 1536 a 1542 a ffurfiolodd siroedd Cymru fel rhan o wladwriaeth Lloegr. Yna yn ystod teyrnasiad ei ferch, Elisabeth I, daeth nifer cynyddol o Gymry i ddylanwadu ar ffurf y wladwriaeth honno, er enghraifft John Dee, a fathodd y term 'Yr Ymerodraeth Brydeinig'.

6.2 Michael D Jones a chenedlaetholdeb y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr Alban ac Iwerddon hefyd wedi'u hymgorffori gan greu Teyrnas Unedig Prydain Fawr ac Iwerddon. Yn ystod y ganrif hon aeth y wladwriaeth ati i geisio tynhau ei rheolaeth ar fywyd y bobl – yn enwedig yn sgil cyffro a phrotest y Chwyldro Diwydiannol – a gwelwyd ymgais i geisio creu a lledu ymdeimlad o hunaniaeth Brydeinig. O ganlyniad, daeth yr iaith a diwylliant Cymraeg dan

CENEDLAETHOLDEB

bwysau; yn yr un cyfnod roedd y werin Gymreig yn wynebu amodau byw anodd iawn ac roedd Eglwys Lloegr yn destun gwrthwynebiad chwyrn ar draws cenedl a oedd bellach wedi troi at yr enwadau anghydfurfiol.

O ystyried yr amgylchiadau hyn, nid syndod, efallai, bod ffigur fel Michael D. Jones (1822-1898) – tad cenedlaetholdeb modern Cymreig, yn nhyb rhai – wedi dod i amlygrwydd. Erbyn heddiw, fe'i hadnabyddir yn bennaf fel arweinydd yr ymdrech i sefydlu Gwladfa Gymraeg ym Mhatagonia yn yr Ariannin, ond roedd eu safbwyntiau cenedlaetholgar yn ymestyn yn llawer pellach na hynny. Mynnai fod y diwylliant mwyafriol Saesneg, trwy sefydliadau sifig megis y gyfraith a llywodraeth, ond hefyd trwy'r economi, yn tanseilio rhagolygon Cymru a'r Gymraeg. Yn wir yn nhyb Jones, a oedd yn bregethwr i'r Annibynwyr, roedd yr iaith yn elfen allweddol i hunaniaeth genedlaethol y Cymry ond hefyd yn hanfodol i'w ffydd – credai y byddai colli'r iaith nid yn unig yn arwain at danseilio diwylliant cynhenid y Cymry, byddai hefyd yn peri iddynt gollu eu crefydd. Am y rhesymau hynny, dadleuodd bod rhaid gwrthsefyll y wladwriaeth Brydeinig, ac os nad oedd hynny'n bosib, byddai'n rhaid wrth ymgais i sefydlu cyfundrefn Gymreig newydd mewn rhan arall o'r byd lle byddai'r Gymraeg yn medru cael ei sefydlu fel yr unig iaith weinyddol swyddogol.

Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dilynwyd Michael D. Jones gan ystod o ffigurau pwysig eraill – yn eu plith Emrys ap Iwan – ac erbyn 1886 sefydlwyd mudiad Cymru Fydd a ddaeth i arwain ymgyrch o blaid ymreolaeth i Gymru ac a ddenodd gefnogaeth gan Ryddfrydwyr Cymreig blaenllaw megis [J.E. Lloyd](#), [O.M. Edwards](#), [T.E. Ellis](#) a Lloyd George. Byrhoedlog oedd llwyddiant y mudiad hwn, a daeth i ben erbyn diwedd y ganrif, yn rhannol o ganlyniad i anghydweld rhwng aelodau'r de a'r gogledd. Serch hynny, parhaodd y syniad o ymreolaeth i gael ei drafod ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, er enghraifft yn sgil ymgyrch yr Aelod Seneddol Cymreig, E.T. John, neu yn sgil ymdrechion sosialwyr megis T.E. Niclas a David Thomas i greu Plaid Lafur Gymreig oedd o blaid ymreolaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio nad annibyniaeth lwyr oedd y nod yn achos yr ymgyrchoedd gwahanol hyn o blaid ymreolaeth ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, ond yn hytrach, ceisio sicrhau mesur o hunanlywodraeth i Gymru fel 'dominiwn' o fewn strwythur rhyngwladol yr Ymerodraeth Brydeinig.

6.3 Saunders Lewis a datblygiad Plaid Cymru

Yn dilyn y Rhyfel Byd cyntaf, gwelwyd y mudiad cenedlaetholgar yng Nghymru yn newid cyfeiriad wrth i ffigurau megis Saunders Lewis (1893-1985) ddadlau bod angen brwydro am annibyniaeth a bod galw am blaid genedlaetholgar Gymreig er mwyn gwneud hynny. Ffurfiwyd Plaid Genedlaethol Cymru (sef enw creiddiol y plaid) ym Mhwillheli yn

CENEDLAETHOLDEB

1925 a gwasanaethodd Saunders Lewis fel ei llywydd hyd at 1939. Fe'i hadnabyddir fel ysgolhaig a llenor disglair, ond roedd ei arweinyddiaeth wleidyddol yn llai poblogaidd. Ffurf geidwadol iawn ar genedlaetholdeb a gâi ei harddel ganddo. Rhoddai bwyslais mawr ar draddodiad a hanes a mynegai amheuon mawr ynglŷn â rhinweddau'r gymdeithas ddiwydiannol fodern – i'r graddau fel ei fod wedi dadlau y dylai Plaid Cymru arddel polisi economaidd a oedd yn argymhell dad-ddiwydiannu cymoedd de Cymru. Ymhellach, trodd at Babyddiaeth yn 1932, penderfyniad a brofodd yn ddadleuol iawn mewn gwlad o gapelwyr anghydfurfiol. Drwy hyn oll, yr un elfen greiddiol a chyson yn ei weledigaeth wleidyddol oedd yr angen i adfer yr iaith Gymraeg a'r nod o greu Cymru Gymraeg unieithog.

Pwysleisir yn aml y gwahaniaethau rhwng Saunders Lewis a'i olynydd, sef Gwynfor Evans (1912-2005). Tra bod y naill yn Babydd, yn geidwadwr ac yn barod i arddel safbwyntiau militaraidd o ran ymagwedd, roedd y llall yn anghydfurfiwr, yn rhyddfrydwr cymdeithasol, a hefyd yn heddychwyr brwd. Yn wir, heddychiaeth gadarn Gwynfor oedd un o'r ffactorau a olygodd na fyddai cenedlaetholdeb Cymreig, ar ei ffurf torfol, yn dilyn llwybr tebyg i'r Gwyddelod. Er gwaetha'r gwahaniaethau hyn roedd y ddau hefyd yn debyg iawn mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, roedd y ddau'n gytŷn ynglŷn ag arwyddocâd hanes i'r mudiad cenedlaethol a hefyd fod cynnal y Gymraeg yn gwbl hanfodol os am gynnal ymdeimlad o arwahanrwydd Cymreig. Yn ogystal, roedd y ddau yn mynnu y dylid dehongli cenedlaetholdeb Cymreig fel safbwynt gwleidyddol cyflawn – un y gellid ei drin fel dewis amgen i gyfalafiaeth farchnadol ar y naill law a sosialaeth ar y llaw arall.

Ffigur pwysig arall sydd angen ei ystyried wrth drafod datblygiad syniadaethol y mudiad cenedlaethol yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif yw J.R. Jones (1911-1970). Ni fu iddo ymgymryd â rôl wleidyddol ffurfiol fel arweinydd plaid – yn hytrach ysgolhaig ydoedd a fu'n bennaeth ar Adran Athroniaeth Prifysgol Abertawe. Yn ystod y 1960au cyhoeddodd o ysgrifau nodedig a oedd yn rhoi mynegiant athronyddol i rai o dybiaethau sylfaenol cenedlaetholdeb Cymreig. Fel yn achos Saunders Lewis a Gwynfor Evans, credai J.R. Jones fod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o barhad y syniad o genedl Gymreig. Dadleuodd bod modd diffinio hanfod y syniad o genedl trwy gyfeirio at dair elfen allweddol, sef tir, iaith a gwladwriaeth, ynghyd â'r clymau rhyngddynt. Cyflwynodd hefyd y cysyniad o 'gydymdreiddiad' rhwng iaith a thir, sef proses hanesyddol sy'n caniatáu i briod iaith cenedl esblygu mewn cytgord â'i thiriogaeth, gan lunio ysbryd y bobl (h.y. aelodau'r genedl). Fodd bynnag yn absenoldeb gwladwriaeth, mynnodd Jones nad oes modd sicrhau parhad yr iaith na chwaith ysbryd unigryw y bobl. Y broblem o safbwynt Cymru, yn nhyb Jones, yw'r ffaith fod y bobl Gymreig yn byw o fewn gwladwriaeth nad sydd wedi'i chlymu i'w tiriogaeth a'u hysbryd hwy; yn hytrach mynnodd fod y Deyrnas Unedig, yn ei hanfod, yn wladwriaeth sydd wedi'i chlymu'n hanesyddol i dir a iaith Lloegr, ac felly nid swyddogaeth y wladwriaeth honno yw

CENEDLAETHOLDEB

gwarchod y bobl Gymreig, ond yn hytrach eu cymhathu. Heb annibyniaeth felly, a heb sefydliadau gwladwriaethol cynhenid, edwino'n raddol fyddai ffawd yr iaith a'r ysbryd Cymraeg, ac yn y pen draw, gyda difodiant yr iaith nid Cymry fyddai yno mwyach.

6.4 Oes Datganoli

Ni ellir trafod cenedlaetholdeb yn y cyswllt Cymreig felly, heb gydnabod y gwrthdrawiad neu â chenedlaetholdeb Prydeinig. Wrth wrthwynebu cenedlaetholdeb Cymreig, yn amlach neu beidio byddai aelodau'r pleidiau mawr – y Ceidwadwyr a'r Blaid Lafur – yn arddel ffurf ar genedlaetholdeb Prydeinig. Ni fyddai hyn, o reidrwydd, yn golygu cwestiynu bodolaeth cenedligrwydd Cymreig, ond byddai'n pwysleisio natur wleidyddol Prydeindod, gan ganiatáu'r Cymreictod fel ymlyniad diwylliannol yn unig. Ac eto, daeth pethau'n fwy cymhleth yn sgil datganoli a sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddiwedd y 1990au. Bellach roedd pwysau ar y pleidiau 'Prydeinig' i fabwysiadu delwedd a byd-olwg mwy Cymreig er mwyn ymateb i'r sialensiau etholiadol a'r sialensiau polisi a oedd yn deillio o'r cyd-destun gwleidyddol newydd. Gwelwyd hyn yn fwyaf amlwg yn achos y Blaid Lafur yn y cyfnod rhwng 1999 a 2003. Yn dilyn llwyddiant annisgwyl Plaid Cymru yn ystod etholiadau cyntaf y Cynulliad yn 1999, bu ymdrech benodol i Gymreigio delwedd y blaid yng Nghymru a hefyd cryfhau ei threfniadaeth yng Nghymru – proses a symbylwyd yn rhannol gan natur ei harweinydd ar y pryd, Rhodri Morgan. Gwelwyd y Ceidwadwyr yng Nghymru a hefyd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cymryd camau digon tebyg. At ei gilydd felly, gellir dadlau bod bron pob un o'r prif bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad (ac eithrio UKIP) yn arddel rhyw ffurf ar genedlaetholdeb Cymreig, yn yr ystyr eu bod yn ymrwymedig i gynnal cyfundrefn lywodraethol Gymreig. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu bod pob plaid yn debygol o gefnogi camau a fyddai'n symud Cymru ymhellach ar hyd y llwybr cyfansoddiadol tuag at annibyniaeth. Fodd bynnag, ceir consensws bellach ar yr angen i drin a thrafod gwleidyddiaeth o fewn ffrâm Gymreig benodol.

7. Cenedlaetholdeb a gwleidyddiaeth fyd-eang

Mae tybiaethau cenedlaetholgar yn gwbl ganolog i weithrediad gwleidyddiaeth fyd-eang. Amlygir hyn gan y ffaith fod gennym bellach system ryngwladol sy'n seiliedig ar gyfres o *genedl-wladwriaethau* sofran sy'n ymwneud â'i gilydd. Wrth gwrs, datblygiad lled-ddiweddar fu ymlediad y drefn yma o genedl-wladwriaethau i bedwar ban byd. Tra bod gwreiddiau cynnar y broses yn ymestyn yn ôl i'r Oesoedd Canol, rhaid cofio bod y genedl-wladwriaeth yn parhau'n ddieithr iawn

mewn sawl rhan o'r byd, hyd yn oed mor ddiweddar â degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, erbyn heddiw gellir dadlau'n hyderus mai dyma yw'r ffurf wleidyddol arferol ar draws y byd.

7.1 Ymddygiad cenedl-wladwriaethau

Mae datblygiad y gyfundrefn ryngwladol o *genedl-wladwriaethau* sofran yn brawf clir o'r modd y mae syniadau cenedlaetholgar wedi siapio ein byd cyfoes. Fodd bynnag, ymhlith yr ysgolheigion hynny sy'n astudio gwleidyddiaeth ryngwladol fe geir dehongliadau gwahanol o'r modd y mae'r unedau cenedlaethol hyn yn ymwneud â'i gilydd, ac yn benodol pa mor barod ydynt i gydweithio a rhannu adnoddau.

Ar y naill law, mae'r sawl sy'n arddel y safbwynt Realidd ar wleidyddiaeth ryngwladol yn mynnu mai unedau mewnbylg yw cenedl-wladwriaethau yn eu hanfod, rhai a fydd wastad yn gosod hunan-fudd uwchlaw unrhyw ystyriaeth arall. O'r safbwynt hwn, bydd unrhyw gydweithio rhwng gwladwriaethau gwahanol ond yn bosib os fydd pob partner yn tybio eu bod yn elwa mewn modd ystyrion o'r broses. Deillia'r dadleuon hyn o gred sylfaenol y Realwyr fod y gyfundrefn ryngwladol yn un ansefydlog o ran ei natur a'i fod felly yn hybu cystadleuaeth ymhlith gwladwriaethau ac yn eu cymell i osod diogelwch a hunan-fudd cenedlaethol uwchlaw popeth arall.

Mae ysgolheigion eraill wedi herio'r safbwynt Realidd traddodiadol, gan fynnu bod cenedl-wladwriaethau yn medru ymddwyn mewn modd moesegol sy'n cydnabod anghenion gwladwriaethau eraill hefyd. Mynnir felly nad dim ond ystyried diogelwch a budd ei dinasyddion ei hun a wna'r genedl-wladwriaeth wrth weithredu ar y llwyfan rhyngwladol. Yn wir, mae'r safbwynt hwn yn un sy'n tybio bod pwyslais ar fuddiannau cenedlaethol yn medru cael ei gydbwyso gydag ystyriaethau cosmopolitaniaid sy'n cydnabod bod y genedl-wladwriaeth yn aelod o gymdeithas ryngwladol ehangach. Yn yr un modd, mae'n safbwynt sy'n cydnabod bod ymlyniad person i gyd-aelodau ei genedl yn bwysig, ond ar yr un pryd, bod ganddo ef neu hi ddyletswydd arwyddocaol tuag at unigolion eraill ar draws y byd.

CENEDLAETHOLDEB

Mae'r safbwyntiau uchod yn medru arwain at syniadau gwahanol ynglŷn â'r graddau y dylai cenedl-wladwriaethau fedru gweithredu'n rhydd o ymyrraeth eraill o fewn y system rhyngwladol. I'r Realydd, dylai gwladwriaethau ymatal yn llwyr rhag ymyrryd ym materion mewnol gwladwriaethau eraill, cyhyd ag y bo dim bygythiad i'w hunan-fudd hwy. Fodd bynnag, yn nhyb y sawl sy'n arddel safbwyntiau mwy cydweithredol, bydd gwladwriaeth yn aberthu ei hawl i sofraniaeth allanol os bydd yn gweithredu mewn modd sy'n sathru ar hawliau sylfaenol ei dinasyddion. Yn yr un modd, o dan y fath amgylchiadau bydd dyletswydd ar wladwriaethau eraill i gymryd camau er mwyn ceisio gwella ymddygiad y wladwriaeth sy'n tramgwyddo.

7.2 Gwrthodiad Cenedlaetholdeb

Fe geir ystod o draddodiadau syniadaethol pwysig sydd, mewn gwahanol ffyrdd, wedi cwestiynu rhai o egwyddorion sylfaenol cenedlaetholdeb ac wedi herio'r dybiaeth mai cenedl-wladwriaethau yw'r unedau addas ar gyfer trefnu'r gymdeithas ryngwladol.

I ddechrau, mae anarchwyr wedi herio goruchafiaeth y genedl-wladwriaeth ar sail y gred eu bod yn unedau rhy fawr ac sydd yn canoli grym yn ormodol a thrwy hynny yn creu gwleidyddion llwgr. Tueddant i ffafrio systemau gwleidyddol ffederal a fydd yn caniatáu i rym orwedd ar lefel leol iawn a lle bydd yna gydbwysedd grym rhwng gwahanol unedau. Cysylltir y traddodiad yma'n aml â syniadau ffigurau megis Pierre-Joseph Proudhon a Mikhail Bakunin.

Mae amheuaeth Marcswyr o'r genedl-wladwriaeth fodern yn deillio o'u cred mai cynnyrch y drefn gyfalafol ydyw ac felly ei fod yn ffurf wleidyddol a fydd wastad yn gwarchod buddiannau'r cyfalafwyr ar draul y dosbarth gweithiol. O ganlyniad, bu'r angen i ddymchwel y wladwriaeth yn thema gyson mewn gwaith Marcsaidd a hefyd yr angen i sefydlu ymdeimlad rhyngwladol o undod ymhlith y dosbarth gweithiol a fyddai'n codi uwchlaw gwahaniaethau cenedlaethol. Wrth gwrs tanseiliwyd y weledigaeth hon, i raddau helaeth, gan y cyfundrefnau Comiwnyddol a sefydlwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif. Systemau totalitaraidd oedd y rhain mewn gwirionedd lle bu i rym y wladwriaeth gael ei dynhau yn hytrach na diflannu. Er hynny, gellir dadlau bod y gwledydd comiwnyddol, o dan arweiniad yr Undeb Sofietaidd, wedi arddel cydweithrediad pellgyrhaeddol ar draws ffiniau.

Un traddodiad pwysig arall sydd wedi herio'r syniad y dylai'r genedl-wladwriaeth fod yn ganolog i weithrediad y gyfundrefn ryngwladol yw Cosmopolitaniaeth. Dyma draddodiad sy'n deillio'n wreiddiol o syniadau meddylwyr megis Immanuel Kant a Richard Price, ill dau wedi dadlau o blaid yr angen i symud tu hwnt i'r syniad o genedl-wladwriaethau sofran tuag at system ffederal fyd-eang. Yn ystod yr ugeinfed ganrif mae meddylwyr megis Charles Beitz wedi datblygu dadleuon cosmopolitan sy'n seiliedig ar egwyddorion

CENEDLAETHOLDEB

megis rhyddid, cydraddoldeb a hawliau'r unigolyn, er mwyn herio'r syniad o fyd sydd wedi'i rannu'n gyfres o genedl-wladwriaethau sofran. Mae Beitz yn ein hannog i drin cyfiawnder fel ystyriaeth gwirioneddol ryngwladol, yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei drafod a'i fesur o fewn cenedl-wladwriaethau unigol. Ymhellach dadleua o blaid polisïau pellgyrhaeddol a fyddai'n arwain at aildosbarthu adnoddau a chyfoeth ar draws ffiniau gwladwriaethau. Tra nad yw'r dadleuon hyn yn rhai sy'n galw'n benodol am ddiddymu'r genedl-wladwriaeth, maent yn sicr yn rhai sydd am weld ei rym yn cael ei gyfyngu'n sylweddol, er mwyn i ystyriaethau cyfanfydol megis lles yr amgylchedd a thlodi rhyngwladol fedru derbyn mwy o sylw.